# Tasg 2

# Tŷ ar werth

1. Rhestrwch unrhyw nodweddion iaith perswadiol sydd yn yr hysbyseb.

   Pa mor effeithiol ydynt?

**2. Chwarae rôl**

**Partner 1:** Rydych chi'n gweithio i'r cwmni sy'n gwerthu'r tŷ yma. Mae Sam Jones yn eich ffonio chi achos mae'n ystyried prynu'r tŷ.
**Partner 2:** Chi ydy Sam Jones. Rydych chi wedi clywed bod **Gwêl y môr** ar werth ac felly rydych chi'n ffonio am wybodaeth.

Cyn dechrau, meddyliwch am beth rydych chi'n mynd i'w ddweud, e.e.

**Partner 1:** Meddyliwch am bethau da i'w dweud am y tŷ. Sut rydych chi'n mynd i berswadio Sam Jones i brynu'r tŷ yma?
**Partner 2:** Meddyliwch am gwestiynau da i'w gofyn am y tŷ.

3. **Y pris**

Mae Sam Jones yn meddwl prynu'r tŷ ond dydy e ddim eisiau talu'r pris llawn o £450 000.

Felly, mae e'n cyfrifo gwahanol symiau.

a. Mae e'n ystyried gofyn am ddisgownt o 25%.

Faint yw 25% o £450 000?

Faint fyddai pris y tŷ wedyn?

b. Mae e'n ystyried gofyn am ddisgownt o 10%.

Faint yw 10% o £450 000?

Faint fyddai pris y tŷ wedyn?

4. Tybed, faint o arian mae'n ei gynnig am y tŷ yn y diwedd?

Rhowch reswm dros eich ateb.